Mai 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# 2015-16 Cyfrifon Llywodraeth Ganolog

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Clare James a Julie Rees o dan gyfarwyddyd Richard Harries.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Adroddiad Cryno 4

Cyflwyniad 4

Detailed report 7

Cyflwynodd yr holl gyrff llywodraeth ganolog eu cyfrifon i'w harchwilio'n brydlon, a chyhoeddwyd pob barn archwilio heblaw am un erbyn y dyddiad cau penodol 7

Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a phapurau gweithio ategol yn gyffredinol o safon dda, fodd bynnag, mae yna le i wella mewn mannau 7

Cyflwynwyd barn archwilio diamod ar yr holl gyfrifon heblaw am un corff a archwilir lle cyflwynwyd barn archwilio amodol 10

At ei gilydd, mae Adroddiadau Blynyddol yn cydymffurfio gyda gofynion ac yn cynnwys rhai enghreifftiau o arfer da, ond mae llawer ohonynt yn rhy hir; gallent fod yn fwy deniadol 10

Mae yna nifer o ddatblygiadau cyfrifyddu ac archwilio ariannol yn yr arfaeth y bydd yn rhaid i gyrff llywodraeth ganolog eu hystyried a pharatoi ar eu cyfer 18

Atodiadau 20

Atodiad 1 - Cyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru 21

Atodiad 2 - Fy nghyfrifoldebau adrodd 22

# Adroddiad Cryno

## Cyflwyniad

1 Dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf ar fy ngwaith o archwilio datganiadau ariannol cyrff llywodraeth ganolog. Mae'n crynhoi canlyniadau fy ngwaith archwilio a gynhaliwyd mewn perthynas â chyrff llywodraeth ganolog (cyrff a archwilir) yng Nghymru ar gyfer 2015-16.

## Cyrff llywodraeth ganolog

2 Mae Arddangosyn 1 yn rhoi crynodeb o'r 23 cyrff a archwilir y maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Fe'u rhestrir yn fanwl yn Atodiad 1.

Arddangosyn 1

| Cyrff a archwilir | Nifer |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 1 |
| Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (elusennol a rhai nad ydynt yn elusennol) | 9 |
| Is-gwmnïau o Lywodraeth Cymru a gyfyngir drwy Warant | 4 |
| Cyrff sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru | 9 |

3 Mae cyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru yn darparu ystod eang o wasanaethau, ac wrth wneud hynny, yn gwario cryn dipyn o arian cyhoeddus. Fel holl gyrff cyhoeddus, mae gofyn iddynt gynhyrchu set o ddatganiadau ariannol blynyddol (cyfrifon) sydd wedi'u harchwilio i arddangos ac adrodd ar stiwardiaeth yr arian cyhoeddus a roddir iddynt, a chant eu dwyn i gyfrif am wneud hynny.

4 Mae'n rhaid i'r holl gyrff a archwilir ddefnyddio eu harian at y defnydd a fwriadwyd ac o fewn y pwerau a'r dyletswyddau sy'n benodol berthnasol iddynt. Fodd bynnag, yn ychwanegol at hyn, mae gofyn i dri o'r cyrff a archwilir[1] gyflwyno amcangyfrif o'r gyllideb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) ac maent yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran defnyddio'r arian hwnnw, sy'n mynnu:

a na ddylid defnyddio swm a glustnodwyd ar gyfer gwasanaeth penodol i ddarparu gwasanaeth arall;

b na ddylai'r gwariant fod yn fwy na'r gyllideb a gymeradwywyd; a

c bod symiadau i'r flwyddyn ariannol honno yn unig a bod yn rhaid ildio unrhyw arian na ddefnyddiwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

5 Mae cynhyrchu cyfrifon cywir ac amserol yn dasg sylweddol ond mae'n angenrheidiol er mwyn dangos atebolrwydd wrth ofalu am a llywodraethu arian cyhoeddus. Mae methu â chyhoeddi cyfrifon o'r fath yn brydlon yn gallu adlewyrchu'n wael ar y corff a archwilir, gan danseilio ei reolaeth ariannol a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol, yn ogystal â hyder cyffredinol yn y sefydliad.

6 Bydd y fframwaith cyfrifyddu a llywodraethu sy'n berthnasol i bob corff llywodraeth ganolog yn cael ei ddiffinio gan ei fframwaith cyfreithiol a rheoleiddio. Bydd hyn yn llywio ffurf a chynnwys y datganiadau ariannol ac unrhyw ofynion adrodd eraill fel eu Hadroddiad Blynyddol, ac yn nodi unrhyw ddyddiadau cau ar gyfer archwilio a chyhoeddi'r dogfennau hyn.

7 Mae'r sector llywodraeth ganolog wedi wynebu nifer o heriau sylweddol. Mae'r pwysau ariannol ar gyllidebau yn parhau i wasgu. Mae hyn, ynghyd â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddio newidiol (gofynion cyfrifyddu newydd i gyrff elusennol, newidiadau i ofynion Adrodd Blynyddol i gyrff nad ydynt yn rhai elusennol a phasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn cadw pwysau ar gyrff a archwilir i chwilio am ffyrdd o gyflawni mwy gyda llai o adnoddau.

1 Llywodraeth Cymru, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

## Fy nghyfrifoldebau archwilio ac adrodd

8 Myfi yw'r archwilydd statudol i'r rhan fwyaf o'r cyrff llywodraeth ganolog. Myfi hefyd yw'r archwilydd i'r gweddill drwy gytundeb dan baragraff 18(3) o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

9 Rwy'n archwilio ac ardystio datganiadau ariannol pob corff a archwilir ac yn bodloni fy hun:

- eu bod yn rhoi darlun 'gwir a theg' o sefyllfa ariannol y corff;
- eu bod wedi'u 'paratoi'n briodol'; a
- nad ydynt yn cynnwys gwariant neu drafodion incwm sydd wedi'u cyflawni'n anghyfreithlon neu heb fod yn unol â'r awdurdodiadau a roddir ('afreolaidd').

10 Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, nid wyf yn ceisio sicrwydd llwyr ar gywirdeb, tegwch a chysondeb y datganiadau ariannol a'r nodiadau ategol, ond yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd. Fy nod yw adnabod camddatganiadau perthnasol, hynny yw, rhai a allai achosi i ddarllenydd y cyfrifon gael ei gamarwain.

11 Mae gofyn i mi hefyd adrodd ar nifer o faterion eraill, gan gynnwys paratoi'r Adroddiad Taliadau yn briodol, ac mae'r pŵer gennyf hefyd i osod adroddiad ochr yn ochr â fy nhystysgrif lle rwyf yn dymuno tynnu sylw darllenwyr at fater penodol. Manylir ar fy nghyfrifoldebau yn Atodiad 2.

# Adroddiad Manwl

## Cyflwynodd yr holl gyrff llywodraeth ganolog eu cyfrifon i'w harchwilio'n brydlon, a chyhoeddwyd  pob barn archwilio heblaw am un erbyn y dyddiad cau penodol

12 Mae gan y 23 corff sy'n rhan o'r adroddiad hwn (fel y nodwyd yn fyr ym mharagraff 6 uchod), ofynion gwahanol, ac mae hynny'n cynnwys amseriad cyhoeddi ac archwilio eu cyfrifon. Mae gan un ar ddeg o'r 23 corff ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno eu cyfrifon drafft i mi eu harchwilio ac mae gan 18 o'r 23 ddyddiad cau ar gyfer archwilio eu cyfrifon.

13 Llwyddodd pob un o'r un ar ddeg corff i gadw at y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eu cyfrifon drafft - gan gyflwyno eu cyfrifon drafft i mi eu harchwilio yn brydlon.  Cwblhaodd fy nhimau archwilio eu gwaith, a chyhoeddais farn archwilio erbyn y dyddiad cau ar gyfer archwilio yn achos 17 o'r 18 corff.

14 I'r un eithriad, cyhoeddais fy marn archwilio yn unol â'r Cod Arfer Archwilio a gyhoeddwyd dan ddeddfwriaeth PAWA 2013 ond ar ôl y cyfnod pedwar mis a nodwyd yng ngorchymyn sefydlu'r corff hwnnw. Digwyddodd hyn yn sgil ymchwiliadau manwl mewn perthynas â rheoleidd-dra trafodion; ceir manylion yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.


## Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a phapurau gweithio ategol yn gyffredinol o safon dda, fodd bynnag, mae yna le i wella mewn mannau

### At ei gilydd, mae ansawdd cyfrifon yn dda, ond gellir gwella trefniadau sicrhau ansawdd drwy ddefnyddio rhestrau gwirio datgelu cyfrifon

15 At ei gilydd, ystyriwyd bod ansawdd y cyfrifon a gyflwynwyd yn dda. Agwedd allweddol ar wella ansawdd y cyfrifon drafft yw sefydlu prosesau sicrhau ansawdd cadarn. Ystyriwyd bod gan ddeunaw o'r 23 corff (78%) brosesau o'r fath ar waith. Roedd lefel y trefniadau sicrhau ansawdd oedd ar waith yn amrywio ond roedd rhai trefniadau da ar waith. Mae enghreifftiau yn cynnwys timau gweithredol a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu yn craffu'n ffurfiol ar gyfrifon drafft cyn iddynt gael eu cyflwyno ar gyfer eu harchwilio.

16 Mae defnyddio rhestrau gwirio datgelu cyfrifon perthnasol yn ffordd werthfawr i ymestyn sicrwydd ynghylch ansawdd cyfrifon ac arddangos cydymffurfiad gyda safonau cyfrifyddu perthnasol. Byddem yn annog cyrff i'w defnyddio fel rhan o'u proses sicrhau ansawdd. Ar hyn o bryd, dim ond deg corff a archwilir (43%) sy'n gwneud hynny.

Arddangosyn 2 – sicrhau ansawdd yn 2015-16




Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata gan dimau archwilio.

## Gyda rhai mân eithriadau, roedd papurau gweithio i ategu'r cyfrifon o safon dda, ac ymhob achos, roedd y safon naill ai cystal neu'n well na blynyddoedd blaenorol

17 Er mwyn ategu'r manylion yn y cyfrifon, dylai cyrff a archwilir ddarparu papurau gweithio amserol, cynhwysfawr a chyflawn. Mae'n bwysig bod archwilwyr a chyrff a archwilir yn cytuno ar y papurau gweithio ac unrhyw ofynion archwilio eraill sy'n ofynnol ymlaen llaw er mwyn hwyluso'r gwaith o gwblhau'r archwilio yn brydlon. Mae papurau gweithio gwael, o safon isel, yn arwain at bwysau cynyddol ar dimau cyllid cyrff a archwilir yn ystod y cyfnod archwilio ac yn cynyddu'r risg na chaiff y cyfrifon eu cwblhau erbyn y dyddiad cau.

18 Nodwyd bod y papurau gweithio sy'n ategu cyfrifon at ei gilydd o safon dda. Fodd bynnag, mewn nifer fach o gyrff a archwilir, nododd archwilwyr bod angen gwella rhai agweddau ar ansawdd, prydlondeb a chywirdeb papurau gweithio ategol i'r cyfrifon. Fodd bynnag, nododd yr holl archwilwyr bod ansawdd y papurau gweithio naill ai cystal neu'n well na'r flwyddyn flaenorol.

## Roedd bron i draean o gyrff a archwilir wedi gwneud newidiadau perthnasol i'w hadroddiad tâl neu ddatgeliadau cyfrifon

19 Fel y nodwyd ym mharagraff 10 uchod, nid wyf yn ceisio sicrwydd llwyr ar gywirdeb, tegwch a chysondeb y datganiadau ariannol a'r nodiadau ategol, ond yn mabwysiadu cysyniad o berthnasedd - lefel y camddatganiadau a allai gamarwain darllenydd y cyfrifon.

20 Mae perthnasedd yn fater o farn broffesiynol, ond yn gyffredinol fe'i gosodwyd rhwng 1% a 2% o lefel y gwariant (o gofio'r gwahaniaeth ym maint y cyrff a archwilir yn y sector hwn, roedd y perthnasedd yn amrywio o £11,000 yn y corff lleiaf a archwiliwyd i £146 miliwn yn y mwyaf). Fodd bynnag, yn achos eitemau penodol, byddaf yn ystyried bod unrhyw gamddatganiad yn berthnasol e.e. tâl uwch swyddog (eitem sensitif); hefyd lle byddai newid yn golygu mynd uwchlaw'r gyllideb a gymeradwywyd (gofynion rheoleiddio penodol - gweler paragraff 4).

21 Dylai trefniadau cynhyrchu cyfrifon da ynghyd â phrosesau sicrhau ansawdd mewnol cadarn a threfniadau adolygu fod yn ddigon i adnabod gwallau perthnasol mewn cyfrifon cyn eu cyflwyno ar gyfer eu harchwilio. Lle caiff newidiadau perthnasol eu gwneud, dylai cyrff adolygu eu trefniadau cynhyrchu cyfrifon a sicrhau ansawdd i sicrhau eu bod yn gallu adnabod gwallau o'r fath cyn i'r cyfrifon gael eu hardystio a'u trosglwyddo ar gyfer eu harchwilio.

### Cam-ddatganiadau perthnasol

22 Pan fydd fy archwilwyr yn adnabod cam-ddatganiadau perthnasol, byddant yn gofyn i'r rheolwyr newid y cyfrifon i gywiro'r gwallau. Os nad ydynt yn cael eu cywiro, neu os nad yw'n bosibl eu newid oherwydd ddiffyg gwybodaeth, byddaf yn cyhoeddi barn archwilio amodol priodol.

23 Yn 2015-16, roedd chwech o'r 23 corff a archwilir wedi gwneud newidiadau perthnasol i'w cyfrifon neu adroddiadau tâl yn dilyn yr archwiliad. Roedd y mwyafrif o'r newidiadau hynny yn ymwneud â naill ai gwallau dosbarthiad neu wallau yn yr adroddiadau tâl. Er nad oedd y newidiadau i'r adroddiadau tâl bob amser yn berthnasol o ran eu gwerth, fe'u hystyriwyd yn berthnasol oherwydd sensitifrwydd cynhenid datgeliadau o'r fath.

### Cam-ddatganiadau amherthnasol

24 Pan fydd fy archwilwyr yn adnabod cam-ddatganiadau amherthnasol, bydd rheolwyr yn cael eu hysbysbu ohonynt eto a gwneir cais iddynt gael eu newid. Os nad yw'r cam-ddatganiadau hyn yn cael eu newid, nid ydynt yn arwain at farn archwilio amodol. Maent yn cael eu hadrodd i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio neu debyg, fel rheol) gyda chais iddynt eu newid neu gynnig esboniad pam na wnaed unrhyw newid.

25 Roedd y meysydd lle gwelwyd cam-ddatganiadau a materion ansoddol eraill yn 2015-16 yn amrywio'n fawl ar draws y sector. Nid oedd unrhyw themâu penodol ar draws y cyrff, sydd efallai i'w ddisgwyl o gofio natur amrywiol gwaith cyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru. Mae archwilwyr wedi darparu adroddiadau yn nodi eu canfyddiadau manwl i'r cyrff a archwilir dan sylw.

## Cyflwynwyd barn archwilio diamod ar yr holl gyfrifon heblaw am un corff a archwilir lle cyflwynwyd barn archwilio amodol

26 Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio diamod yn achos cyfrifon pob un o'r cyrff a archwilir heblaw am un yn 2015-16. Lle'r oedd cam-ddatganiadau perthnasol wedi dod i'r golwg, fe'u newidiwyd.

27 Mewn un achos, cyflwynais farn archwilio amodol. Tra bod y datganiadau ariannol yn rhoi 'darlun cywir a theg', deuthum i'r casgliad nad oedd y penderfyniad i ddyfarnu wyth contract gwerthu rhyng-gysylltiedig yn dilyn y gweithdrefnau cywir. Nid oeddwn ychwaith yn gallu bodloni fy hun fod y penderfyniad yn cyd-fynd â rheolau a gofynion eraill. Deuthum felly i'r casgliad mai'r weithred gywir fyddai cyhoeddi barn archwilio amodol. Mae'r mater hwn ar hyn o bryd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

28 Ceir manylion o'r mathau o farnau y gellir eu cyhoeddi yn Atodiad 2.

## At ei gilydd, mae Adroddiadau Blynyddol yn cydymffurfio gyda gofynion ac yn cynnwys rhai enghreifftiau o arfer da, ond mae llawer ohonynt yn rhy hir; gallent fod yn fwy deniadol

29 Nod prosiect Symleiddio a Llilinio Cyfrifon Trysorlys EM yw gwella mynediad a dealltwriaeth o gyfrifon ac adroddiadau cyrff cyhoeddus. Fel rhan o'r prosiect hwnnw yn 2015-16, newidiodd fformat adroddiad blynyddol cyrff sy'n gorfod cydymffurfio gyda Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM (FReM) yn sylweddol.

30 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cymryd diddordeb wrth graffu ar gyfrifon ac adroddiadau blynyddol cyrff llywodraeth ganolog, gan gynnwys cydymffurfio â gofynion adrodd Trysorlys ei Mawrhydi. Yn ei adroddiad yn 2016, argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus yn gweithio i gyflwyno gwybodaeth yn eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon mor syml â phosibl ac y dylid ystyried defnyddio diagramau a ffeithluniau i wneud gwybodaeth allweddol mor ddarllenadwy â phosibl[2].

2 Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Craffu ar gyfrifon, 2015-16, Rhagfyr 2016

31 I helpu adnabod meysydd allweddol ar gyfer gwella ac adnabod arfer da, cynhaliodd fy staff adolygiad lefel uchel o'u Hadroddiadau Blynyddol 2015-16 gan ddarparu adborth meintiol (cydymffurfiad) ac ansoddol (pa mor ddarllenadwy ayb). Ochr yn ochr â hyn, cynhaliodd fy staff hefyd adolygiad o adroddiadau blynyddol y cyrff hynny sy'n gorfod cydymffurfio gyda Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau (SoRP).


32 Derbyniwyd yr adolygiad hwn yn gynnes gan y cyrff dan sylw. Mae ein canfyddiadau at ei gilydd yn bositif gyda chanlyniadau da o ran cydymffurfiad, a rhai enghreifftiau da o adroddiadau blynyddol deniadol a darllenadwy. Canfu'r adolygiad:

a cydymffurfiad cyffredinol o 70% gyda Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM (15 o gyrff nad ydynt yn elusennol); a

b chydymffurfiad cyffredinol o tua 80% gyda Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau (tri o gyrff elusennol).

33 Tra bod yr achosion cydymffurfio a hepgorwyd yn rhai cymharol rwydd i fynd i'r afael â hwy (e.e. cadarnhau nad oes problemau mewn rhai meysydd; angen geiriad penodol mewn eraill), mae angen rhoi mwy o sylw i'r her o sicrhau bod adroddiadau yn ddarllenadwy ac yn gryno. Er bod modd i ddefnyddwyr gael dealltwriaeth dda o'r adroddiadau, mae llawer yn rhy hir, yn drwm o ran naratif ac mae'n anodd tynnu'r prif negeseuon. Mae Arddangosyn 3 isod yn dangos nad oes cysylltiad rhwng ansawdd a hyd adroddiad.


Arddangosyn 3 – canran y cydymffurfiad yn erbyn hyd yr Adroddiad Blynyddol




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau blynyddol 2015-16 cyrff llywodraeth ganolog.

34 Rhoddaf isod rai enghreifftiau o arfer da sy’n werth eu nodi a’u rhannu.

Arddangosyn 4 – Defnydd o ffeithluniau gan Estyn i ddisgrifio perfformiad mewn perthynas â’r rhaglen arolygwyr cymheiriaid




Ffynhonnell: Detholiad o adroddiad blynyddol Estyn.

Arddangosyn 5 – Defnydd o ffeithluniau gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddangos eu haddysg ac ymgysylltu â phobl ifanc

## ADDYSG AC YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC

Eleni, parhawyd i weld llawer iawn o bobl ifanc o bob rhan o Gymru - gan rannu gwybodaeth am waith y Cynulliad a sut y gall pobl ifanc gymryd rhan.

**215** GWEITHGAREDD ADDYSGOL YN Y CYNULLIAD | **234** GRŴP | **6,027** MYFYRIWR YN BRESENNOL

**251** GWEITHGAREDD ALLGYMORTH ADDYSG | **154** GRŴP | **11,757** MYFYRIWR YN BRESENNOL


**128** GWEITHGAREDD YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC | **183** GRŴP | **3,183** MYFYRIWR YN BRESENNOL

**85** CYFARFOD Â GRWPIAU IEUENCTID | **571** GRŴP FEL CYFANSWM | **649** GWEITHGAREDD FEL CYFANSWM

CYFANSWM NIFER Y MYFYRWYR YN BRESENNOL **20,967**

Ffynhonnell: Detholiad o Adroddiad Blynyddol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Arddangosyn 6 – Defnydd o ffeithluniau gan y Cyngor Gofal i helpu disgrifio eu fframwaith llywodraethu




Ffynhonnell: Detholiad o Adroddiad Blynyddol Cyngor Gofal

35 Mae Arddangosyn 7 ac 8 isod yn nodi cydymffurfiad yn fanylach, ond dyma'r cwestiynau y byddwn yn annog cyrff i ofyn i'w hunain wrth baratoi eu Hadroddiadau Blynyddol:


- A yw'n adrodd stori:
  - Pwy ydych chi a beth ydych chi'n ei wneud?
  - Sut ydych chi wedi perfformio (nid beth ydych chi wedi'i wneud yn unig) a sut ydych chi'n mesur y perfformiad hwnnw?
  - Beth sy'n poeni'r Bwrdd (h.y. risgiau a materion allweddol)?
  - Sut ydych chi'n sicrhau bod eich trefniadau llywodraethu yn briodol (a'u bod yn gwneud eu gwaith)?
- A yw'r adroddiad yn gryno ac yn glir:
  - A yw'n rhydd o jargon?
  - A oes gormod o fanylion sy'n cuddio'r prif negeseuon?
  - A yw'n llifo ac yn defnyddio crynodebau/ffeithluniau yn effeithiol?
- A yw'n cynnwys yr elfennau gofynnol?

## Adroddiadau Blynyddol sy'n seiliedig ar Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM (FreM)

36 Mae Arddangosyn 7 yn nodi cydymffurfiad gyda gofynion FreM, a ddadansoddwyd dros elfennau unigol yr adroddiad:

- **Adroddiad Perfformiad** – nod hwn yn 'adrodd stori' y corff, gan gynnwys trosolwg a mesurau perfformiad;
- **Adroddiad Atebolrwydd** – nod hwn yn esbonio pa mor dda y mae'r corff yn cydymffurfio gyda gofynion stiwardiaeth a llywodraethu, ac mae'n cynnwys:
  - **Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol;**
  - **Adroddiad Tâl a Staff;** a
  - **Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol** (mesurwyd cyrff yn erbyn pob un o'r pum eitem datgelu er dibenion arfer da, er bod Llywodraeth Cymru ond yn mynnu cydymffurfiad gydag un ohonynt).

Arddangosyn 7 – canran y cydymffurfiad gyda gofynion FReM





Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad Blynyddol 2015-16

## Adroddiadau Blynyddol sy'n seiliedig ar Ddatganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau (SoRP)

37 Mae Arddangosyn 8 yn nodi cydymffurfiad gyda gofynion Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i Elusennau (SoRP), a ddadansoddwyd dros elfennau unigol yr adroddiad; mae rhai ohonynt yn orfodol a rhai yn berthnasol i elusennau mwy o faint yn unig:

- a Amcanion a gweithgareddau
- b Cyflawniadau a pherfformiad
- c Adolygiad ariannol
- ch Cynlluniau i'r Dyfodol
- d Strwythur, Llywodraethu a Rheolaeth
- dd Cyfeiriadau a manylion gweinyddol

Arddangosyn 8 – canran y cydymffurfiad gyda gofynion SoRP Elusennau




Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad Blynyddol 2015-16

## Mae yna nifer o ddatblygiadau cyfrifyddu ac archwilio ariannol yn yr arfaeth y bydd yn rhaid i gyrff llywodraeth ganolog eu hystyried a pharatoi ar eu cyfer

### Newidiadau allweddol i IFRS ar gyfer y dyfodol (perthnasol i holl gyrff Llywodraeth Ganolog ac eithrio Cyrff Elusennol a Noddir gan Lywodraeth Cymru)

38 Mae newidiadau sydd yn yr arfaeth i safonau cyfrifyddu (delio gydag offerynnau ariannol, refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid a phrydlesi) yn cyflwyno newidiadau allweddol i'r egwyddorion cyfrifyddu sydd i'w defnyddio gan gyrff llywodraeth ganolog. Disgwylir y bydd IFRS 16 yn benodol yn cael effaith sylweddol ar y gwaith o baratoi cyfrifon.

### Newidiadau yn yr arfaeth i UK GAAP (perthnasol i Gyrff Elusennol a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn unig)

39 Yn dilyn cyflwyniad trefn gyfrifyddu newydd UK GAAP ar gyfer 2015-16, ni ddisgwylir unrhyw newidiadau i FRS 102 yn y tair blynedd nesaf. Bydd y FRC yn dechrau adolygu FRS 102 yn fuan, a bwriedir i'r fersiwn diwygiedig fod yn weithredol ar gyfer 2019-20. Fodd bynnag, i'r flwyddyn ariannol 2016-17, mae Adran 1A o FRS 102 yn disodli Safonau Adrodd Ariannol ar gyfer Endidau Llai (FRSSE).

### Cyflwyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

40 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) i rym yn Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi ddarparu adroddiad cyn etholiad nesaf y Cynulliad Cenedlaethol yn manylu sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w gwireddu. Yn 2017 byddaf yn cynnal fy ngwaith cyntaf dan y Ddeddf – Sylwebaeth y Flwyddyn Gyntaf – i ddeall sut mae cyrff yn dechrau ymateb i'r gofynion. Byddaf hefyd yn cydweithio â nifer fach o gyrff cyhoeddus (gan gynnwys rhai cyrff llywodraeth ganolog), i ddatblygu dull archwilio sy'n ystyrlon ac yn gymesur, y gellir ei fabwysiadu yn y dyfodol.

Arddangosyn 9 – Newidiadau allweddol yn yr arfaeth i IFRS

| Safon | Dyddiad y daw'n weithredol | Manylion pellach |
|---|---|---|
| IFRS 9 offerynnau ariannol | 2018-19 | Bydd IFRS 9 offerynnau ariannol yn disodli IAS 39 ac mae'n cynnwys dull newydd yn seiliedig ar egwyddorion ar gyfer dosbarthu a mesur asedau ariannol. Mae hefyd yn cyflwyno methodoleg amhariad newydd ar gyfer asedau ariannol yn seiliedig ar golledion a ddisgwylir yn hytrach na cholledion a ddioddefwyd. Mae hyn yn golygu y bydd modd adnabod colledion credyd disgwyliedig ynghynt ac yn fwy amserol. Mae bron yr holl ofynion cyfrifyddol ar gyfer dyledion ariannol yn parhau heb eu newid o IAS 39. |
| IFRS 15 refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid | 2018-19 | Mae IFRS 15 refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid yn cyflwyno model pum cam yn seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cydnabod refeniw sy'n deillio o gontractau gyda chwsmeriaid. Mae'n seiliedig ar egwyddor graidd sy'n nodi bod yn rhaid i brosesau cydnabod refeniw ddangos trosglwyddiad nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u haddo i'r cwsmer ar ffurf swm sy'n adlewyrchu'r hyn y disgwylia'r corff y bydd hawl ganddo iddo, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Mae hefyd yn gofyn am ddatgeliadau mwy eang na'r hyn sydd ei angen ar hyn o bryd. |
| IFRS 16 prydlesi | 2019-20 | Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon gyfredol ar gyfer prydlesi sef IAS 17. Y prif newid yw ei fod yn dileu ar y cyfan y gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredu a phrydlesi ariannol ar gyfer prydleswyr drwy gyflwyno model cyfrifyddol prydleswr sengl sy'n gofyn i'r prydleswr adnabod asedau a dyledion i'r holl brydlesi gyda thymor mwy na 12 mis, oni bai bod yr ased sylfaenol yn isel ei werth. Bydd hyn yn arwain at adnabod pob prydles ar fantolen fel ased yn seiliedig ar egwyddor 'hawl defnyddio' gyda dyled gyfatebol ar gyfer rhentu yn y dyfodol. Mae hyn yn newid sylweddol o ran cyfrifyddu prydleswyr. |

# Atodiadau



# Atodiad 1 - Cyrff llywodraeth ganolog yng Nghymru

Arddangosyn 10

| Cyrff a archwilir | Nifer |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | **1** |
| **Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (nad ydynt yn elusennol)** | **5** |
| Cyngor Chwaraeon Cymru<br>Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru<br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| **Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (elusennol)** | **4** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru<br>Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru<br>Amgueddfa Genedlaethol Cymru<br>Llyfrgell Genedlaethol Cymru | |
| **Is-gwmnïau o Lywodraeth Cymru a gyfyngir drwy Warant** | **4** |
| Hybu Cig Cymru (Meat Promotion Wales)<br>Dewis Gyrfa<br>Sector Development Wales<br>Hwb Gwyddorau Bywyd | |
| **Cyrff sy'n annibynnol ar Gomisiynwyr Llywodraeth Cymru** | **9** |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Comisiynydd Plant Cymru<br>Comisiynydd y Gymraeg<br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Cyngor y Gweithlu Addysg<br>Estyn<br>Cymwysterau Cymru<br>Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru<br>Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |

# Atodiad 2 - Fy nghyfrifoldebau adrodd

## Beth fyddaf yn adrodd arno yn fy nhystysgrif ac adroddiad:

### Bran ar Ddatganiadau Ariannol

a A yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y corff?

b A ydynt wedi'u paratoi'n briodol?

### Barn ar Reoleidd-dra

A ddefnyddiwyd y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yw'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio gyda'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu?

### Barn ar faterion eraill

a A yw darn yr Adroddiad Tâl sydd i'w archwilio wedi'i baratoi'n briodol?

b A yw unrhyw wybodaeth ariannol arall a gyhoeddwyd gyda'r datganiadau ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol hynny?

### Materion y byddaf yn adrodd yn amodol arnynt:

a lle nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad gyda chanllawiau:

b lle na chadwyd cofnodion cyfrifyddu boddhaol/priodol/digonol;

c lle nad yw'r datganiadau ariannol a rhan yr Adroddiad Tâl sydd i'w archwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni ariannol;

ch lle na ddatgelwyd gwybodaeth a nodir gan Drysorlys EM/Gweinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill; neu

d lle nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf i gwblhau fy archwiliad.

### Fy Adroddiad

Mae'n rhaid i fi hefyd ystyried os oes gennyf unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn a nodi'r sefyllfa fan hyn. Os oes gennyf unrhyw sylwadau pellach, byddaf yn eu gwneud mewn adroddiad ar wahân ac yn cyfeirio atynt fan hyn.

## Cyd-destun fy ngwaith adrodd: perthnasedd

Wrth gynllunio a chyflawni'r archwiliad, ceisiaf adnabod cam-ddatganiadau perthnasol a wnaed naill ai drwy dwyll neu wallau yn y datganiadau ariannol. Ystyrir bod cam-ddatganiadau, gan gynnwys pethau a hepgorwyd, yn berthnasol os credir yn rhesymol fod modd iddynt yn unigol, neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed yn seiliedig ar y datganiadau ariannol. Os yw camddatganiad neu rywbeth a hepgorwyd yn parhau yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd, byddaf yn newid fy nhystysgrif ac adroddiad safonol.

Mae perthnasedd yn dibynnu ar faint yr eitem neu wall o ran yr hyn a hepgorwyd neu gam-ddatganiad.

Mae'r hyn a ddyfarnaf fel perthnasedd yn fater o farn broffesiynol a bydd nifer o ffactorau yn dibynnu ar hynny gan gynnwys:

- math y corff a archwilir;
- natur y gwasanaethau y mae'r corff yn ei ddarparu;
- gofynion deddfwriaethol; ac
- anghenion deddfwyr ac eraill sy'n defnyddio datganiadau ariannol o ran gwybodaeth ariannol.

Mae'n bosibl i rai materion ansoddol hefyd effeithio ar berthnasedd eitem, fel gofynion cyfreithiol a rheoleiddio a sensitifrwydd gwleidyddol.

# Sut y gallaf newid fy nhystysgrif ac adroddiad

## Fy nhystysgrif: barn archwilio amodol a diamod

| Math o farn | Disgrifiad |
|---|---|
| Barn ddiamod | Mae’r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac nid oes unrhyw drafodion afreolaidd, ymhob mater perthnasol. |
| Barn amodol ‘ac eithrio’ - cyfyngiad o ran cwmpas | Mae’r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac nid oes unrhyw drafodion afreolaidd, ac eithrio mater perthnasol lle nad oedd yr archwilydd yn gallu cael tystiolaeth ddigonol. |
| Barn amodol ‘ac eithrio’ - anghytundeb | Mae’r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac nid oes unrhyw drafodion afreolaidd, ac eithrio mater perthnasol lle'r oedd anghytundeb rhwng yr archwilydd a’r corff a archwilir ynghylch y modd y cafodd y mater ei drin yn y datganiadau ariannol. |
| Barn anffafriol | Roedd anghytundeb a oedd yn berthnasol ac yn hollbresennol, bod y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn gamarweiniol neu’n anghyflawn. |
| Ymwadu barn | Ni allai’r archwilydd fynegi barn, oherwydd ni allent gael tystiolaeth i’r fath raddau ag y gallai’r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd fod yn gamarweiniol neu’n anghyflawn. |

## Fy nhystysgrif: pwyslais ar fater, materion eraill, ac adroddiadau drwy eithriad

Mae'n bosibl hefyd i fy adroddiad archwilio gynnwys paragraff 'pwyslais ar fater'. Mae hyn yn tynnu sylw defnyddwyr datganiadau ariannol at fater, neu faterion, a gyflwynir neu a ddatgelir yn y datganiadau ariannol, sydd mor bwysig fel eu bod yn sylfaenol i ddealltwriaeth defnyddwyr o'r datganiadau ariannol. Nid yw hyn yn effeithio ar fy marn.

Gallaf hefyd ychwanegu paragraff 'mater arall' os credaf ei bod yn angenrheidiol cyfleu mater, heblaw am y rhai a gyflwynir neu a ddatgelir yn y datganiadau ariannol, sy'n berthnasol i ddealltwriaeth defnyddwyr o'r archwiliad, fy nghyfrifoldebau neu'r adroddiad archwilio.

Adroddaf drwy eithriad os:

- nad yw'r datganiad llywodraethu blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiad gyda chanllawiau;
- nad oedd y wybodaeth a roddwyd yn y rhagair esboniadol yn gyson gyson gyda'r datganiadau ariannol; neu os
- wyf yn arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau ychwanegol dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy Adroddiad:

Os oes gennyf unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y datganiadau ariannol, byddaf yn eu gwneud mewn adroddiad naratif a elwir yn adroddiad 'sylweddol'. Byddaf fel rheol yn gwneud adroddiad sylweddol pan fyddaf yn cyflwyno barn amodol, ond gallaf ddewis gwneud un hefyd lle mae fy marn yn ddiamod.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls
in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru